
Dysgu i addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd, LXT191

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Modiwl 15 pwynt yw *Dysgu i addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd LXT 191* sy'n dilyn modiwlau LXT192/3/4/7. Drwy gyfuno addysgeg astudio ieithoedd mewn ysgolion cynradd ag astudio un o'r pedair iaith, mae *LXT191* yn defnyddio ail hanner modiwlau rhagarweiniol allweddol Lefel un canlynol Y Brifysgol Agored: *Bon départ: Ffrangeg i ddechreuwr*, *Rundblick: Almaeneg i ddechreuwr*, *Portales: Sbaeneg i ddechreuwr a Tsieinëeg (Mandarin) i ddechreuwr*.

Bydd y pedwar llinyn iaith, a addysgir gan Ddarlithwyr Cyswllt Y Brifysgol Agored, yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i siarad a deall Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Tsieinëeg syml mewn sefyllfaoedd bob dydd, ac maent wedi'u cynllunio i'w galluogi i gyflawni lefel o rhuglder sy'n cyfateb i lefel [A2 Fframwaith Cyfeirio Ieithoedd Ewropeaidd Cyffredin Cyngor Ewrop](#) (CEFR).

Mae angen gwybodaeth ymarferol o Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Tsieinëeg i astudio'r modiwl hwn, sy'n cyfateb i lefel CEFR A1.1. Mae'r adnoddau astudio yn cynnwys llyfrau'r modiwl mewn fformat PDF, recordiadau sain digidol, gwefan modiwl benodedig a gweithgareddau ar-lein, y mae pob un ohonynt yn cefnogi dysgu annibynnol. Gyda'i gilydd, byddant yn rhoi ymdeimlad go iawn i'r myfyrwyr o ddiwylliannau Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg neu Tsieinëeg eu hiaith, yn ogystal â sgiliau iaith.

Byddwch yn addysgu un o bedwar llinyn iaith y modiwl drwy ddulliau addysgu cyfunol, gan gynnwys cynadleddau cydamseredig, tiwtorialau wyneb yn wyneb a fforymau ar-lein. Bydd y tiwtorialau'n cael eu cynnal ar-lein yn bennaf, gan ddefnyddio system cynadledda clyweledol. Yn ogystal â hyn, mae rhywfaint o diwtora wyneb yn wyneb, gan ddibynnu ar y lleoliad daearyddol. Mae'r modiwl hefyd yn defnyddio Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol. Mae'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn cynnwys cyfuniad o adnoddau rhyngweithiol, gweithgareddau a deunyddiau sain a darllen ychwanegol i gefnogi'r dysgu ac ategu llyfrau'r modiwl. Bydd disgwyl i chi gefnogi a thiwtora myfyrwyr ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn rheolaidd drwy fforwm grŵp tiwtor ar-lein.

Manyleb y person

Dylid darllen y fanyleb person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol yn un o'r pedair iaith: Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Tsieinëeg neu bynciau perthnasol arall a chymhwysedd siaradwr brodorol neu bron yn frodorol mewn Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Tsieinëeg Mandarin
- profiad helaeth o addysgu Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Tsieinëeg Mandarin, yn ddelfrydol i oedolion
- ymrwymiad i addysgu iaith gyfathrebol
- sensitifrydd i'r problemau penodol sy'n gysylltiedig ag addysgu a dysgu ieithoedd o bell
- dealltwriaeth eang o wledydd lle siaredir Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Tsieinëeg (Mandarin), eu cymdeithasau a'u diwylliannau
- parodrwydd i feithrin ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol y myfyrwyr

- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i addysgu iaith.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o weithio gydag athrawon ysgol neu addysgu mewn ysgolion
- gwybodaeth sylweddol am system addysg naill ai Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Loegr
- cymhwyster addysgu priodol
- Profiad o addysgu ar lefel dechreuwyr.

Gwybodaeth ychwanegol

- Byddai profiad o ddefnyddio ffurfiau electronig ar ddysgu a chymorth o bell yn ddefnyddiol, ond bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu.
- Caiff y tiwtorialau eu cynnal gyda'r hwyr neu ar benwythnosau. Disgwylir i chi fod ar gael i ateb galwadau ffôn neu negeseuon e-bost rhwng tiwtorialau er mwyn helpu'r myfyrwyr gyda'u hanawsterau.
- Caiff aseiniadau eu cyflwyno, eu marcio a'u dychwelyd yn electronig.
- Bydd angen i chi gael mynediad rheolaidd at gyfrifiadur sy'n cydymffurfio â'r manylebau a bennir ar y wefan cyfrifiadura personol ar gyfer *LXT191*.

Nodwch yr ieithoedd (Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg neu Tsieinëeg (Mandarin)) rydych yn teimlo eich bod yn gymwys i'w haddysgu yn y blwch "arbenigedd" yn adran A o'r ffurflen gais. Gallwch gynnwys mwy nag un iaith os yw'n briodol.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#)

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	15
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	1
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	2
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	2.5